

**CYNGOR SIR CEREDIGION
SWYDDFA ARCHEBU, CEI NEWYDD**

Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

1. Mae'r Brydles ar gyfer y Swyddfa Archebu, sy'n rhan o Swyddfa'r Harbwr, Stryd y Pier, Cei Newydd (y Safle).
2. Bydd y Brydles am gyfnod o bum mlynedd.
3. Bydd taliad rhent y chwarter cyntaf yn daladwy wrth lofnodi'r brydles. Wedi hynny, bydd y rhent yn daladwy bob chwarter ymlaen llaw.
4. Bydd gan y Tenant yr hawl i derfynu'r brydles ar yr ail a'r bedwaredd pen-blwydd, ar yr amod y rhoddir 3 mis o rybudd ymlaen llaw.
5. Ni chaniateir is-osod y Safle cyfan nac unrhyw ran ohono.
6. Bydd y Tenant yn sicrhau bod y Safle'n cael ei gadw'n lân ac yn dachus ac yn darparu cynwysyddion sbwriel digonol lle bo'n briodol. Ni fydd y Tenant yn caniatáu i bapur gwastraff, sbwriel nac unrhyw wastraff gael ei adael y tu allan i'r Safle.
7. Mae'r Tenant yn ymrwymo i beidio ag achosi niwsans ar y Safle.
8. Ni chaniateir arddangos unrhyw hysbysebion ar y Safle, ac eithrio un arwydd sy'n dangos enw unig gwmni'r Tenant.
9. Bydd y Tenant yn gyfrifol am yswirio unrhyw stoc ac offer sy'n cael eu gadael ar y Safle.
10. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am yswirio strwythur yr adeilad, a bydd y gost yn cael ei throsglwyddo i'r Tenant. Nid yw gwydr plât wedi'i gynnwys yn yswiriant y Cyngor a rhaid i'r Tenant ei yswirio ar wahân.
11. Bydd y Tenant yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio ac addurno mewnol ac allanol, a bydd yn ofynnol iddo ailbaentio'r tu mewn a'r tu allan yn ystod 3 mis olaf y Brydles.
12. Bydd y Tenant yn indemnio'r Cyngor rhag pob achos, cost, iawndal, hawliad a galwad, ac yn yswirio yn enwau'r Cyngor a'r Tenant ar y cyd yn erbyn pob hawliad a galwad o'r fath.
13. Bydd y Tenant yn talu'r holl ardrethi, trethi, asesiadau a threuliau presennol ac yn y dyfodol, o ba fath bynnag, a godir neu a osodir ar y Safle neu ar y Cyngor neu'r Tenant mewn perthynas ag ef.
14. Rhaid i'r Tenant ddarparu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol gwerth £10,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad.
15. Efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu geirda banc boddhaol cyn y gellir derbyn ei gais tendr.
16. Bydd y brydles wedi'i heithrio rhag sicrwydd deiliadaeth o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954.

DS Amlinelliad yn unig o'r Telerau ac Amodau yw hwn. Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i dderbyn y Cynnig uchaf nac unrhyw Gynnig, ac mae derbyn unrhyw Gynnig yn amodol ar gwblhau Brydles ffurfiol ar delerau i'w pennu gan y Cyngor. Mae'r Cyngor drwy hyn yn cadw'r hawl i amrywio'r amodau uchod neu ychwanegu atynt.